# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Lleoliad:

**Fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Llun, 27 Chwefror 2023

Amser: 13.32 - 14.29

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/13212

# O bell

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Huw Irranca-Davies AS (Cadeirydd)<br>Alun Davies AS<br>James Evans AS<br>Peredur Owen Griffiths AS |
| Tystion: | |
| Staff y Pwyllgor: | P Gareth Williams (Clerc)<br>Gerallt Roberts (Ail Glerc)<br>Sarah Sargent (Ail Glerc)<br>Kate Rabaiotti (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

Nid oedd dim ymddiheuriadau na dirprwyon.

Senedd Cymru
Welsh Parliament

## 2 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3.

### 2.1 SL(6)321 - Rheoliadau Addysg (Cyllid Myfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwynt adrodd a nodwyd.

### 2.2 SL(6)322 - Rheoliadau Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Adolygu Mapiau) (Diwygio) (Cymru) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

### 2.3 SL(6)323 - Rheoliadau Ardrethu Annomestig (Newid Rhestrau ac Apelau) (Cymru) 2023

Nododd y Pwyllgor fod yr offeryn wedi’i dynnu’n ôl cyn y cyfarfod.

### 2.4 SL(6)324 - Rheoliadau Addysg (Benthyciadau i Fyfyrwyr) (Ad-dalu) (Diwygio) 2023

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn ynghyd ag ymateb Llywodraeth Cymru, a chytunodd i gyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd a nodwyd.

## 3 Offerynnau sy’n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i’r Senedd o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3 - a drafodwyd yn flaenorol.

### 3.1 SL(6)312 - Gorchymyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 (Cynigion Cyllidebol a Chyrff Dynodedig) (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gyda’r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol.

## 4 Cytundeb Cysylltiadau Rhyngsefydliadol

### 4.1 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Cyllid: Cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 4.2 Datganiad ysgrifenedig a gohebiaeth gan y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd: Y Rheoliadau Rhestrau Gwledydd Cymeradwy (Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid) (Diwygio) 2023

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig a'r llythyr gan y Gweinidog.

## 5 Papurau i'w nodi

### 5.1 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Cywiriadau i offerynnau statudol Cymru

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gyda'r Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 5.2 Gohebiaeth gan y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar Fil Banc Seilwaith y DU

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 5.3 Datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Adroddiad ar weithredu cynigion Comisiwn y Gyfraith

Nododd y Pwyllgor y datganiad ysgrifenedig gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 5.4 Gohebiaeth gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad: Bil Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad.

### 5.5 Gohebiaeth gan Weinidog yr Economi: Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Diogelwch Ar-lein

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Gweinidog.

### 5.6 Gohebiaeth gan Teuluoedd yn Gyntaf mewn Addysg - Cymru: Addysg gartref

Nododd y Pwyllgor yr ohebiaeth gan Teuluoedd yn Gyntaf mewn Addysg - Cymru, a chytunodd i ymateb.

### 5.7 Gohebiaeth gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio)

Nododd y Pwyllgor y llythyr gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai at y Pwyllgor Busnes.

## 6 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Cytunodd y Pwyllgor â'r cynnig.

## 7 Cyflwyniad drafft i Bwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban: Sut mae datganoli yn newid ar ôl ymadael â'r UE? Ymchwiliad

Cytunodd y Pwyllgor ar y cyflwyniad drafft i ymchwiliad Pwyllgor Cyfansoddiad, Ewrop, Materion Allanol a Diwylliant Senedd yr Alban.

## 8 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Caffael: Nodyn Cyngor Cyfreithiol

Trafododd y Pwyllgor y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol.

## 9 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Memorandwm Rhif 5) ar y Bil Tai Cymdeithasol (Rheoleiddio): Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno.

## 10 Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Troseddau Economaidd a Thryloywder Corfforaethol: Adroddiad drafft

Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunodd arno.

**Affirmative Resolution Instruments**

**Made Negative Resolution Instruments**

## Made Negative Resolution Instruments